Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf – L145

Gorffennaf 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

https://gweddill.gov.wales/topics/housing-and-regeneration/publications/regframeworkhousingassoc/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

**Sail y Dyfarniad**

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78964-852-2
Hawlfraint y Goron 2019

# Proffil

Mae Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf ("Cynon Taf" neu "y Grŵp") yn cynnwys y rhiant-gwmni a'i is-gwmni, Gofal a Thrwsio Cwm Taf. Crëwyd Cynon Taf ar ôl i Gymdeithas Tai Cynon Taf uno â Chymdeithas Tai Pontypridd a'r Rhanbarth yn 2008. Mae Cynon Taf yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Mae aelodau'r ddau Grŵp wedi'u cofrestru o dan y Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddynt reolau elusennol.

Mae'r Grŵp yn berchen ar tua 1,827 o gartrefi ac yn eu rheoli, gan gynnwys 279 o gartrefi gwarchod/pobl hŷn a 62 o gartrefi â chymorth. Mae'n gweithredu yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn darparu gwasanaethau yn ardaloedd awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr, sydd â'r nod o alluogi pobl hŷn i aros yn eu cartref yn fwy cysurus, yn gynhesach ac yn fwy diogel.

## Data Ariannol Allweddol

| | **Data Hanesyddol** | | **Terfyn Cyfamod** | **Cyfartaledd ar gyfer y Sector** |
|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | | **2017/18** |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 25.3% | 21.3% | dd/g | 20.1% |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 12.0% | 11.2% | dd/g | 8.1% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 0.7% | 1.2% | dd/g | 2.1% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 31% | 28% | dd/g | 75% |
| Geriad (gwerth net) | 38% | 40% | 60% | 61% |
| Sicrwydd llog | 209% | 172% | 120% | 165% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Grŵp gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Gorffennaf 2019

**Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac yn meddu ar yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.